# Rheoli’r amgylchedd cynhyrchu dyfrol ar gyfer pysgod/cregynbysgod sydd yn cael eu ffermio

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rheoli'r amgylchedd cynhyrchu dyfrol ar gyfer unrhyw bysgod neu gregynbysgod sydd yn cael eu ffermio. Mae'n ymwneud â gweithredu rhaglenni i fonitro a chynnal yr amgylchedd cynhyrchu mewn unedau cadw.

Mae'n gofyn bod gwaith yn cael ei gwblhau yn unol â gweithdrefnau gweithredu safonol y safle ac yn unol â chodau ymarfer y diwydiant.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn rheoli'r amgylchedd cynhyrchu dyfrol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. sicrhau bod yr holl waith yn cael ei wneud yn ddiogel yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol a gweithdrefnau'r safle
2. rheoli'r amgylchedd cynhyrchu dyfrol i gynnal datblygiad stoc wedi ei ffermio
3. trefnu'r adnoddau sydd eu hangen i fonitro a chynnal yr amgylchedd cynhyrchu dyfrol
4. hwyluso'r gwaith o gasglu gwybodaeth yn rheolaidd am yr amgylchedd cynhyrchu dyfrol
5. rhoi gweithdrefnau ar waith i fonitro cyflwr yr unedau cadw
6. gweithredu a rheoli rhaglenni cynnal amgylcheddol i fodloni gofynion sefydliadol, yn unol â deddfwriaeth bresennol
7. addasu rhaglenni cynnal i ystyried amodau amgylcheddol cyffredin
8. rhoi gweithdrefnau ar waith i fonitro a chynnal amodau amgylcheddol mewn unedau cadw
9. cynnal dwyseddau stocio gofynnol mewn unedau cadw
10. rhoi gweithdrefnau ar waith i fonitro presenoldeb plâu, ysglyfaethwyr a rhywogaethau sydd yn niweidiol yn fasnachol
11. sicrhau bod cyfarpar, larymau a systemau diogelwch yn cael eu cadw mewn cyflwr gweithredol
12. rheoli'r gwaith o waredu gwastraff i gynnal yr amgylchedd dyfrol, yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol
13. sefydlu a chynnal hylendid a bioddiogelwch y safle yn unol â gofynion cyfreithiol ac asesiadau risg y safle
14. cadw cofnodion o'r amgylchedd cynhyrchu dyfrol i fodloni gofynion archwilio cyfreithiol ac ansawdd yn unol â gweithdrefnau'r safle

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol perthnasol a gweithdrefnau'r safle ar gyfer iechyd a diogelwch sydd yn gysylltiedig â gweithgareddau i reoli'r amgylchedd cynhyrchu dyfrol
2. nodweddion safle dyframaethu ac unedau cadw
3. amodau amgylcheddol sy'n ofynnol gan y rhywogaethau o bysgod/cregynbysgod sydd yn cael eu ffermio
4. sut i sefydlu'r dwyseddau stocio gorau ar gyfer yr unedau cadw, yn dibynnu ar y pysgod/cregynbysgod sydd yn cael eu ffermio
5. y ffordd y gall ffactorau amgylcheddol effeithio ar iechyd a lles a datblygiad stoc pysgod/cregynbysgod
6. y ffordd y mae rhaglenni cynnal amgylcheddol priodol yn helpu i gynnal ansawdd dŵr
7. sut i weithredu a rheoli'r rhaglenni cynnal amgylcheddol
8. y gofynion cyfreithiol perthnasol ar gyfer gwaredu gwastraff yn cynnwys cydsyniadau gollwng a sut mae'r rhain yn cael eu rheoli gan y cyrff rheoliadol
9. sut i adnabod plâu ac ysglyfaethwyr a'r dulliau cyfreithiol perthnasol o'u hallgáu a'u rheoli
10. pwysigrwydd monitro presenoldeb rhywogaethau sydd yn niweidiol yn fasnachol a'r camau i'w cymryd os bydd eu presenoldeb yn cael eu nodi
11. achosion pysgod yn dianc ar fferm pysgod esgyll
12. y gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag **argyfyngau** a nodir sydd yn effeithio ar yr amgylchedd dyfrol
13. bioddiogelwch a'i bwysigrwydd yn cynnal iechyd pysgod/cregynbysgod a lleihau effaith amgylcheddol
14. gweithdrefnau sefydliadol a'r ffordd y mae'r rhain yn berthnasol i'r codau ymarfer perthnasol a'r gyfraith
15. dyluniad a chynllun cyfarpar safle a'u cryfderau a'u gwendidau fel system cyfyngu pysgod
16. y prosesau a ddefnyddir i fonitro cyflwr cyfarpar safle
17. y fframwaith ddeddfwriaethol bresennol a'r goblygiadau yn dilyn torri rheolau cyfyngiant
18.

y gweithdrefnau archwilio sydd yn berthnasol i gyfyngiant sydd wedi cael eu rhoi ar waith y gofynion cyfreithiol a gweithdrefnau'r safle ar gyfer cad

19.

w cofnodion o'r amgylchedd cynhyrchu dyfrol

## Cwmpas/Ystod

Mae'r safon hon yn gofyn eich bod yn gwybod sut i reoli'r **rhaglenni cynnal amgylcheddol** canlynol:

1. gofalu am unedau cadw, cyfyngiant a diogeledd fferm
2. rheoli dwyseddau stocio
3. rheoli plâu ac ysglyfaethwyr
4. gwaredu gwastraff
5. rheoli elifiant fferm

## Geirfa

**unedau cadw** – cyfleusterau a ddefnyddir i gadw pysgod neu gregynbysgod mewn amgylchedd cynhyrchu wedi ei reoli e.e. cewyll, llociau, pyllau, tanciau, leiniau hir, rhedfeydd, rhwydi llusern, sanau/tiwbiau, sachau ac ati

**rhywogaethau sydd yn niweidiol yn fasnachol** – rhywogaeth o bysgod neu gregynbysgod, unrhyw rywogaeth arall o anifail neu rywogaeth o blanhigyn sydd, os nad yw'n cael ei reoli, yn debygol o gael effaith niweidiol sylweddol ar fuddiannau economaidd neu fasnachol ffermwr pysgod neu gregynbysgod, a, lle nad oes llawer, os o gwbl, o werth masnachol i'r rhywogaeth ei hun. Mae hyn yn cynnwys rhywogaethau ymledol nad ydynt yn gynhenid.

**argyfyngau** – **e.e.** digwyddiadau o lygredd, methiant cyfarpar, amrywiadau mewn ansawdd dŵr, pysgod yn dianc

LANAqu22

Rheoli'r amgylchedd cynhyrchu dyfrol ar gyfer pysgod/cregynbysgod sydd yn cael eu ffermio

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Awst 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Awst 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAqu22 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermio Pysgod |
| **Cyfres/Set** | Cadwraeth Amgylcheddol, Dyframaethu |
| **Geiriau Allweddol** | pysgod; cynhyrchu; amgylchedd |